Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Glenys Jones**

**Pwllheli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddi l heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 2 Awst 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac mae ganddynt gydberthynas gynnes â'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth ac yn dewis yn hyderus o blith y gweithgareddau sydd ar gael. Mae'r plant yn hyderus i gyfleu eu hanghenion ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau, a dysgu sgiliau cymdeithasol cadarnhaol.

Mae'r gwarchodwr plant yn garedig ac yn cefnogi'r plant mewn modd cadarnhaol. Mae'n ymwybodol o'i chyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn hyrwyddo arferion iach. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio dulliau effeithiol i reoli'r rhyngweithio, gan ddarparu gofal magwrus ac annog sgiliau cymdeithasol cadarnhaol. Mae'n adnabod y plant yn dda ac yn cynllunio'n effeithiol er mwyn diwallu eu hanghenion unigol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr eiddo yn groesawgar ac yn ddiogel ac yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau. Mae'n cwblhau gwiriadau diogelwch rheolaidd ac mae ganddi weithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau y caiff peryglon eu rheoli'n effeithiol. Fodd bynnag, ni chaiff yr asesiadau risg bob amser eu hadolygu bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu monitro'n effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ystod eang o gyfleoedd i'r plant archwilio deunyddiau naturiol a synhwyraidd, gan eu helpu i ddysgu am y byd o'u cwmpas.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn dda ac yn deall ei chyfrifoldebau rheoliadol. Mae'n sicrhau bod ei hyfforddiant a'i gwiriadau addasrwydd yn gyfredol, a bod y rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad eu plant ac unrhyw newidiadau i'r lleoliad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant ac â'i gilydd. Maent yn symud yn rhydd o amgylch y gweithgareddau ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus. Maent yn awyddus i rannu eu profiadau â'r gwarchodwr plant a'u ffrindiau. Er enghraifft, maent yn dangos y teganau a ddewiswyd ganddynt yn frwdfrydig iddi, ac yn tynnu sylw at y pethau sydd o ddiddordeb iddynt yn llawn cyffro.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, gwnaethant ein cynnwys yn eu chwarae, gan sgwrsio'n frwdfrydig wrth iddynt wneud paneidiau o de a bwyd yn y gegin chwarae a'u rhoi i ni ac i'r gwarchodwr plant. Mae'r plant yn hyderus i fynd at y gwarchodwr plant i gael cysur, ac mae hi'n rhoi anogaeth gadarnhaol iddynt ac yn eu cofleidio pan fydd angen. Er enghraifft, maent yn mynd at y gwarchodwr plant i gael mwythau a chysur pan fyddant wedi blino neu'n teimlo'n rhwystredig, ac yn gwybod y byddant yn cael sylw ar unwaith.

Mae'r plant yn dechrau gwneud ffrindiau, ac yn meithrin sgiliau cymdeithasol cadarnhaol. Maent yn hapus i gymryd eu tro ac i rannu teganau ar ôl i'r gwarchodwr plant eu hatgoffa'n garedig. Er enghraifft, cymerodd dau blentyn eu tro i rolio'r injanau tân a'r ceir tegan i lawr y ramp, gan chwerthin a sgwrsio â'i gilydd wrth iddynt aros eu tro a bloeddio eu cymeradwyaeth wrth i'w ffrindiau rolio eu ceir nhw i lawr. Mae'r plant yn awyddus i gynnwys eu ffrindiau a'r gwarchodwr plant yn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn llawn cyffro wrth ddefnyddio'r 'walkie talkies' i sgwrsio â'i gilydd, gan chwerthin a gwenu wrth i'w ffrindiau neu'r gwarchodwr plant siarad yn ôl â nhw.

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad yn fawr iawn ac yn ymuno'n frwd yn y gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn ymgysylltu'n dda wrth greu nythod ar gyfer yr adar tegan, gan ddefnyddio gwellt a phapur brown wedi'i rwygo. Roeddent yn sgwrsio'n hapus am ba ddeunyddiau i'w hychwanegu ac am ba dŷ adar roeddent am roi'r nyth ynddo. Yna, gwnaethant fwynhau sgwrsio â'i gilydd am yr adar roeddent wedi'u gweld yn yr ardd yr wythnos honno, gan fynd ati'n frwdfrydig i enwi'r adar a dweud wrthym am y cywion roeddent wedi'u gweld. Mae'r plant yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau gyda'r tasgau y byddant yn eu gweld yn fwy heriol. Er enghraifft, gwnaethant barhau i ganolbwyntio wrth helpu'r gwarchodwr plant i glirio'r byrddau ar ôl cinio, gan wagio cynnwys y platiau yn ofalus i'r bin ailgylchu.

Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau ac maent yn gallu treulio digon o amser yn yr awyr agored. Maent yn defnyddio'r ardd mor aml â phosibl pan fydd y tywydd yn caniatáu, ac yn mynd i feysydd chwarae a mannau o ddiddordeb yn rheolaidd, lle maent yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n gorfforol ac yn gymdeithasol. Caiff y plant eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain, fel golchi a sychu eu dwylo a'u hwynebau eu hunain a chlirio eu platiau eu hunain. Mae'r plant yn awyddus i helpu'r gwarchodwr plant gyda thasgau. Er enghraifft, mae pob un ohonynt yn dilyn cyfarwyddiadau'n dda wrth dacluso'r teganau ac maent yn helpu i olchi'r llestri yn rheolaidd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae wedi cwblhau hyfforddiant diogelu sy'n gyfredol ac yn gallu disgrifio'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddi unrhyw bryderon am blentyn y mae'n gofalu amdano. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau'r hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig diweddaraf, sy'n golygu ei bod yn barod i ddelio ag unrhyw ddamweiniau neu argyfyngau a all ddigwydd. Caiff damweiniau eu dogfennu'n dda, a chaiff y cofnodion eu llofnodi gan y rhieni, i ddangos eu bod wedi cael gwybod am y digwyddiad. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng drwy sicrhau bod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal. Mae'r ymarferion hyn wedi'u cofnodi mewn cofnodlyfr penodol. Fodd bynnag, gellid datblygu'r cofnodion hyn ymhellach i gynnwys mwy o fanylion.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo arferion iach; mae'n sicrhau bod digon o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol a threulio amser yn yr awyr agored. Mae'n sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar eu poteli dŵr drwy'r dydd, gan hyrwyddo arferion hydradu da. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu hylendid da drwy annog y plant i olchi eu dwylo ar adegau priodol, ac yn sicrhau bod ganddynt dywelion papur a weips er mwyn atal y risg o groesheintio. Mae'n dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol wrth newid cewynnau ac wrth drin bwyd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant. Mae'n siarad â nhw mewn modd caredig a chyfeillgar ac yn delio ag unrhyw ymddygiad digroeso yn bwyllog a theg. Mae'n defnyddio dulliau cadarnhaol i ailgyfeirio'r plant os byddant yn dechrau dangos unrhyw ymddygiadau annerbyniol. Er enghraifft, mae'n cyfleu ei disgwyliadau'n glir ond yn dyner mewn perthynas â rhannu ac ymddwyn yn briodol yn ystod gweithgareddau, ac mae'n tynnu sylw'r plant a'u hailgyfeirio os byddant yn dechrau ymddwyn yn amhriodol. Mae'r polisi rheoli ymddygiad yn amlinellu'r arferion a welwyd yn ystod ein hymweliad.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau yn unol â diddordebau unigol y plant a'u hanghenion datblygiadol. Mae'n olrhain eu datblygiad unigol gan ddefnyddio taflenni olrhain datblygiadol penodedig, y mae'n eu defnyddio i gofnodi pan fydd y plant wedi meithrin sgiliau gwahanol. Mae hefyd yn casglu samplau o waith y plant a ffotograffau ohonynt i greu cofnodion dysgu unigol, a gaiff eu rhannu â'r rhieni ar ddiwedd pob blwyddyn. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am gynnydd eu plentyn drwy negeseuon preifat a dyddiaduron dyddiol unigol.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân a diogel i'r plant. Mae'r drysau i'r safle yn cael eu cloi pan fo'r plant yn bresennol ac mae gofyn i ymwelwyr ddangos prawf adnabod a mewngofnodi drwy ddefnyddio'r llyfr ymwelwyr dynodedig. Mae ardal yr ardd yn ddiogel ac wedi'i hamgylchynu gan ffens gadarn. Caiff cofnodion cywir o bresenoldeb y plant eu cofnodi bob dydd. Mae'r gwarchodwr plant yn monitro ac yn ymateb i unrhyw beryglon posibl mewn modd amserol. Er enghraifft, mae hi'n cwblhau gwiriadau o bob ardal, y teganau a'r adnoddau yn ddyddiol, ac yn ymdrin ag unrhyw faterion a all godi. Caiff yr holl beryglon posibl a'r camau i'w cymryd i leihau neu ddileu'r peryglon hyn eu hamlinellu yn yr asesiadau risg ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau risg hyn bob amser yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd croesawgar a chyfeillgar. Gall y plant ddefnyddio ystafell chwarae a lolfa, sy'n golygu bod ganddynt ddigon o le i symud o gwmpas yn rhydd ac archwilio'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau sy'n addas ar gyfer oedran y plant, gan gynnwys ffigurau anifeiliaid, setiau trên pren, jig-sos, cerbydau tegan, teganau adeiladu, deunyddiau celf a chrefft a chegin chwarae. Cedwir y teganau a'r gemau yn drefnus a chânt eu storio mewn bocsys ar lefel isel er mwyn i'r plant allu eu cyrraedd yn annibynnol. Ceir hefyd glustogau a chadeiriau cyfforddus er mwyn i'r plant allu ymlacio a threulio amser tawel yn darllen o'r amrywiaeth eang o lyfrau sydd ar gael os byddant yn dymuno gwneud hynny. Gall y plant hefyd ddefnyddio'r ardd sy'n darparu amrywiaeth o ardaloedd croesawgar gyda digonedd o le i'r plant chwarae ynddynt, eu harchwilio a defnyddio eu synhwyrau. Mae'r ardd yn cynnwys tŷ chwarae, ardal chwarae dŵr, ardal archwilio cerddorol, ardal blannu ac amrywiaeth o ardaloedd i ymgymryd â gweithgareddau synhwyraidd.

Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o gyfarpar i gefnogi sgiliau annibynnol y plant iau. Er enghraifft, mae ganddi stôl step i blant bach yn yr ystafell ymolchi er mwyn i'r plant allu defnyddio'r toiled a golchi eu dwylo yn annibynnol. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn cylchdroi'r teganau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth o brofiadau gwahanol. Mae'r holl deganau ac adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Darperir amrywiaeth eang o ddeunyddiau synhwyraidd a naturiol i'r plant eu harchwilio, gan eu galluogi i ddefnyddio eu synhwyrau ac i ddysgu am y byd o'u cwmpas.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau rheoliadol, ac mae amrywiaeth o bolisïau ganddi sy'n golygu ei bod yn gallu rhedeg ei gwasanaeth mewn modd diogel ac effeithiol. Caiff y polisïau hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Fodd bynnag, roedd y polisi cwyno yn cynnwys rhai gwallau. Ers hynny, rydym wedi cael copi diwygiedig o'r polisi hwn, sydd bellach yn cynnwys y wybodaeth gywir. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu'r gwarchodwr plant yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, ond mae'r wybodaeth wedi'i chynnwys mewn mwy nag un ddogfen. Byddai tynnu'r dogfennau hyn ynghyd i greu un polisi yn sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael yn fwy hwylus. Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben manwl, sy'n rhoi disgrifiad clir a chywir o'r lleoliad. Mae hyn yn golygu y gall rhieni wneud penderfyniad gwybodus o ran p'un a all y lleoliad ddiwallu eu hanghenion nhw a'u plentyn ai peidio.

Mae'r gwarchodwr plant yn ceisio adborth gan y rhieni a'r plant yn rheolaidd. Mae'n nodi rhai o'r gwelliannau a wnaed hyd yma a'r gwelliannau arfaethedig ar gyfer gweddill y flwyddyn mewn adroddiad manwl ar yr adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal. Mae'r holiaduron adborth i rieni yn dangos eu bod yn fodlon iawn ar y lleoliad a'r gofal a ddarperir i'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ddilys ac yn gyfredol iddi hi ei hun yn ogystal ag i aelodau o'r aelwyd. Mae'n sicrhau bod Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cael gwybod am ddigwyddiadau o bwys neu newidiadau i'r gwasanaeth fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae ei hyfforddiant cymorth cyntaf a hyfforddiant diogelu yn gyfredol er mwyn cynnal dealltwriaeth dda o'r arferion cyfredol gorau yn yr agweddau hyn.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni ac yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Roedd y cofnodion a ddarparwyd yn dangos bod y gwarchodwr plant yn casglu'r holl wybodaeth ofynnol am y plant cyn iddynt ddod i'r lleoliad. Mae hyn yn rhoi cyfle iddi gynllunio'n effeithiol ac i weithio gyda theuluoedd i ddiwallu anghenion unigol y plant. Mae'r rhieni yn cofrestru i ddangos eu bod wedi cael holl bolisïau'r gwasanaeth cyn i'w plentyn fynychu, a'u bod yn eu deall. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am y gymuned y maent yn byw ynddi drwy dreulio llawer o amser yn ymweld â'r ardaloedd lleol, fel parciau a mannau o ddiddordeb, a grwpiau plant bach lleol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau y caiff asesiadau risg eu hadolygu a'u diweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn ac y caiff dyddiad yr adolygiad ei gofnodi. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Wrth gofnodi ymarferion tân, dylid cynnwys amser yr ymarfer a'r amser a gymerwyd i adael yr adeilad. |
| Cynnwys yr holl bolisïau a gweithdrefnau diogelu o fewn un ddogfen er hwylustod. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

ddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau y caiff asesiadau risg eu hadolygu a'u diweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn ac y caiff dyddiad yr adolygiad ei gofnodi. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arfer Gorau** |
|---|
| Argymhelliad (argymhellion) |
| Wrth gofnodi ymarferion tân, dylid cynnwys amser yr ymarfer a'r amser a gymerwyd i adael yr adeilad. |
| Cynnwys yr holl bolisïau a gweithdrefnau diogelu o fewn un ddogfen er hwylustod. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

oddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete